## Beirniadaeth Cystadleuaeth 390 – Cywaith 'Môr a Mynydd'

## Beirniad – Nia Wynn Davies

Mae cystadleuaeth y cywaith yn un gwerth ei chynnwys yn rhestr testunau'r Urdd. Rhydd y gystadleuaeth hon gyfle i ddisgyblion gyd-weithio, cyd-drafod a chyd-gynllunio i bwrpas cynhyrchu llyfryn neu becyn o gyfansoddiadau amrywiol ar thema arbennig. Rhydd gyfle i'r disgyblion archwilio thema a'i chysylltiadau, ymchwilio, gweithio'n annibynnol, datblygu syniadau, datblygu sgiliau ysgrifennu ymhellach, defnyddio amrywiaeth o ffurfiau ysgrifennu a chyweiriau iaith, datblygu arddull ysgrifennu, ac ail-ddrafftio er mwyn cyfoethogi iaith a sicrhau cywirdeb ac amrywiaeth mynegiant.

Daeth dau gywaith i law:

*Criw Gwirion* Trefnwyd y cywaith yn ôl ffurfiau ysgrifennu gan roi sylw i 'môr', 'mynydd', a'r idiom 'gwneud môr a mynydd' o fewn adran pob ffurf ysgrifennu. Mae ansawdd yr ysgrifennu yn gyffredinol dda, gyda rhai cyfansoddiadau yn rhagori ar eraill o ran cynnwys a chywirdeb. Difyr yw'r darllen, a dysgir cryn dipyn am y thema. Digon deniadol hefyd yw'r diwyg.

*Bisgedi* Cywaith ar ffurf cylchgrawn ar y thema yw hwn. Ceir ar ei ddechrau gyflwyniad i godi diddordeb yn y cynnwys. Trefnwyd y gwaith yn ôl is-themâu -'môr' yn gyntaf, yna 'mynydd', a cherdd ar y diwedd i gloi a chyd-gysylltu'r cyfan. Defnyddir amrywiaeth da o ffurfiau ysgrifennu i gynnig inni gyfansoddiadau creadigol, ffeithiol a mynegi barn ar sawl agwedd ar y thema. Mae hyd a sylwedd i sawl un o'r cyfansoddiadau, ac aeddfedrwydd yn yr ysgrifennu. Prin yw'r gwallau iaith, ac mae'r mynegiant yn raenus ar y cyfan, yn amrywiol ei gystrawennau, ac yn gyfoethog ei eirfa a'i ddisgrifiadau. Mae'r diwyg hefyd yn ddeniadol. Dyma gylchgrawn sy'n ddiddorol i'w ddarllen, cylchgrawn sy'n procio'r meddwl a chylchgrawn sy'n gadael y darllenydd yn ystyried a meddwl am nifer o'r pwyntiau a godwyd.

Oherwydd rhagoriaeth y cynllunio, sylwedd y cyfansoddiadau, aeddfedrwydd yr ysgrifennu, a chywirdeb a chyfoeth y mynegiant, Bisgedi ddaw i'r brig, a Criw Gwirion yn ail. Diolch i ddisgyblion y ddau gywaith am roi oriau o ddarllen pleserus, difyr ac addysgiadol i'r beirniad. Da iawn chi!